O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1175 (Cy. 102)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau ynghylch codi ffioedd ac adennill ffioedd ynglŷn â chyflenwi cyffuriau a darparu triniaeth fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, er mwyn galluogi darparu triniaeth ynglŷn â ffliw pandemig heb godi ffi.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007, i ddarparu yn ychwanegol at yr amgylchiadau presennol y mae cyffuriau i'w darparu'n ddi-dâl, na chaniateir codi ffi ynghylch cyffuriau pan gyflenwir y cyfryw gyffuriau pan fo clefyd pandemig (megis ffliw pandemig), sy'n ymddangos yn risg difrifol i iechyd dynol neu sy'n ymddangos yn bosibl i fod yn risg difrifol i iechyd dynol (neu pan ragwelir bod clefyd o'r fath ar ddigwydd) a bod cyflenwad o'r cyffuriau yn unol â phrotocol sy'n ymwneud â'r clefyd hwnnw fel y darperir ar ei gyfer yn erthygl 12F o Orchymyn Meddyginiaethau Presgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997 neu erthygl 8 o Orchymyn Meddyginiaethau (Gwerthiant Fferyllfeydd a Gwerthiant Cyffredinol—Esemptiad) 1980.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd i Ymwelwyr Tramor) 1989 ("Rheoliadau 1989"), sy'n darparu ar gyfer codi ffioedd ynghylch darparu triniaeth benodol gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i bersonau nad ydynt fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ("ymwelwyr tramor"). Mae rheoliad 3(c) o Reoliadau 1989 yn darparu na cheir codi unrhyw ffi ynglŷn â gwasanaethau sy'n ffurfio rhan o'r gwasanaeth iechyd a

ddarperir i ymwelydd tramor ar gyfer triniaeth sy'n ymwneud â chlefyd a restrir yn Atodlen 1 i Reoliadau 1989. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Atodlen honno i fewnosod cofnod am ffliw pandemig. Yr effaith fydd na chodir ffi ar ymwelydd tramor sy'n cael ei drin mewn ysbyty am ffliw pandemig am unrhyw driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n ymwneud â'r cyflwr hwnnw.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1175 (Cy. 102)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009

Gwnaed *7 Mai 2009*

Gosodwyd gerbron

Cynulliad Cenedlaethol Cymru *7 Mai 2009*

Yn dod i rym *8 Mai 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 121(1), 124 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd) (Diwygiadau Ynghylch Ffliw Pandemig) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 8 Mai 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007

2.—(1) Diwygier Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder ar ôl rheoliad 7 y rheoliad canlynol:

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/121 (Cy.11).

"**7.A** (Cyflenwi cyffuriau os digwydd pandemig)

"(1) Ni chaniateir codi ffioedd na'u hadennill o dan y Rheoliadau hyn ynglŷn â chyflenwad —

(a) a wneir—

(i) tra bydd clefyd yn bandemig, neu

(ii) wrth rag-weld bod clefyd ar ddigwydd yn bandemig

ac yn risg i iechyd dynol neu gyda'r posibilrwydd o fod yn risg i iechyd dynol; a

(b) sydd yn unol â phrotocol sy'n ymwneud â'r clefyd hwnnw fel y darperir ar ei gyfer yn erthygl 12F o Orchymyn Meddyginiaethau Presgripsiwn yn Unig (Defnydd Dynol) 1997(**1**) neu erthygl 8 o Orchymyn Meddyginiaethau (Gwerthu gan Fferyllfeydd ac yn Gyffredinol - Esemptiad) 1980(**2**).".

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd i Ymwelwyr Tramor) 1989

3. Yn Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd i Ymwelwyr Tramor 1989(**3**), yn Rhan IV (clefydau eraill), ar ôl "Severe Acute Respiratory Syndrome" mewnosoder y cofnod canlynol—

"Pandemic influenza (influenza caused by a new virus subtype that has an increased and sustained transmission during a global outbreak of influenza).".

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Mai 2009

(**1**) 1997/1830; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2009/1165
(**2**) 1980/1924; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2009/1165.
(**3**) O.S. 1989/306; Mewnosodwyd Rhan IV o Atodlen 1 gan O.S. 2004/1433 (Cy.146).